

DATGANIAD I'R WASG – GWYNEDD – PRESS RELEASE



Gwaith uwchraddio yn arbed i gartref preswyl yn Nhywyn

Mae un o gartrefi preswyl Cyngor Gwynedd wedi elwa ar brosiect sylweddol i uwchraddio'r adeilad, sydd nid yn unig wedi creu amgylchedd byw mwy cyfforddus ar gyfer y preswylwyr ond sydd hefyd am sicrhau arbedion sylweddol i gostau cynnal yr adeilad.

O ganlyniad i osod system boeleri a gwresogi newydd yng nghartref Llys Cadfan yn Nhywyn, mae modd bellach i reoli tymheredd y cartref oddi ar y safle, sy'n golygu gall staff addasu'r gwres ar-lein eu hunain, neu gysylltu gyda thîm Cadwraeth Ynni Cyngor Gwynedd i newid y tymheredd ar eu rhan.

Dywedodd y Cyngorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd: "Roeddwn i'n falch iawn o weld y gwaith uwchraddio yn Llys Cadfan fel rhan o Gynllun Rheoli Carbon y Cyngor lle'r ydan ni'n gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth o gael sir garbon isel. Wrth fuddsoddi i wneud ein hadeiladau cyhoeddus yn fwy ynni effeithlon, rydym yn helpu i arbed miloedd o dunelli o CO₂ y flwyddyn, yn ogystal â gwneud arbedion sydd werth cannoedd ar filoedd o bunnoedd fel rhan o'r broses.

“Wrth gwrs, mae gan staff rôl bwysig i’w chwarae i sicrhau llwyddiant y cynllun, trwy fod yn rhagweithiol wrth arbed ynni lle bynnag sy’n bosib. Mae’r tîm yn Llys Cadfan yn esiampl ardderchog o hyn, yn eu hymdrechion i leihau faint o ynni sy’n cael ei wastraffu.”

Roedd yr hen system foeleri yn Llys Cadfan, ynghyd â’r ffaith nad oedd yr adeilad mor effeithlon ag y gallai fod, yn ei gwneud yn anodd rheoli’r gwres, ac roedd hyn yn golygu fod dod o hyd i’r balans cywir mewn tymheredd yn aml yn heriol. Fel rhan o’r cynllun uwchraddio, fe gynhaliwyd gwaith i insiwleiddio pibellau’r cartref i sicrhau eu bod yn cadw’r gwres i mewn. Cwblhawyd y gwaith uwchraddio mewn camau dros gyfnod o rhai blynnyddoedd.

Meddai Rheolwr Llys Cadfan, Helen Jones: “Mae’r gwaith uwchraddio wedi gwneud byd o wahaniaeth. Rydan ni hefyd yn annog staff i geisio arbed ynni lle bynnag sy’n bosib. Mae fy agwedd i’r un fath yn y fan yma ag y mae o gartref - os dydi o ddim mewn defnydd, diffoddwch o.

“Rydym wedi gweld gwellhad sylweddol ers i’r systemau newydd gael eu cyflwyno, ac rydw i’n siŵr y byddan ni’n gweld y byddan ni’n gweld gwahaniaeth mwy unwaith bydd ail gyfnod y gwaith o insiwleiddio’r pibellau yn cael ei gwblhau.

Wedi cyflwyno systemau gwresogi a goleuo mwy effeithlon, mae’r cartref erbyn hyn yn cynhyrchu 26.2% yn llai o allyriadau carbon nag yr oedd ddeng mlynedd yn ôl ac mae defnydd trydan y cartref wedi gostwng 13.5%, tra fod ei ddefnydd nwy wedi lleihau’n sylweddol o 35.8%.

LLUNIAU:

I - David Lewis, Rheolwr Cadwraeth Ynni’r Cyngor; Y Cynghorydd Anne Lloyd-Jones sy’n cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd; y Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Amgylchedd; Rheolwr Llys Cadfan a’r Cynghorydd Mike Stevens sy’n cynrychioli Tywyn ar Gyngor Gwynedd, ar ymweliad diweddar i’r cartref